



Enw:	<i>Elinor Crouch-Puzey, Swyddog Polisi ac Ymchwil</i>
Sefydliad:	<i>Cymorth i Ferched Cymru</i>
Cyfeiriad Eboost:	<i>EliCrouch-Puzey@welshwomensaid.org.uk</i>
Rhif Ffôn:	<i>02920 541 551</i>
Cyfeiriad:	<i>Tŷ Pendragon, Plas Caxton, Pentwyn, Caerdydd CF23 8XE</i>
Dyma safbwyntiau:	<i>Cymorth i Ferched Cymru (Trydydd Sector) - yr elusen genedlaethol yng Nghymru sy'n gweithio i ddileu cam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod.</i>

Ynglŷn â Cymorth i Ferched Cymru

Cymorth i Ferched Cymru yw'r corff ymbarél yng Nghymru sy'n cefnogi ac yn darparu cynrychiolaeth genedlaethol i wasanaethau annibynnol arbenigol yng Nghymru yn y trydydd sector sy'n gweithio i ddileu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (sy'n cynnwys ein haelodaeth o wasanaethau arbenigol ac aelodau rhanbarthol Fforymau Darparwyr Gwasanaethau Arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol).¹ Mae'r gwasanaethau hyn, fel rhan o rwydwaith o ddarpariaeth yn y Deyrnas Unedig, yn darparu cymorth sy'n achub ac yn newid bywydau

¹ Mae ein haelodaeth o 22 o wasanaethau arbenigol trydydd sector yng Nghymru sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, y mae gennym gytundebau partneriaeth cenedlaethol â hwy er mwyn sicrhau y cydlynir ac integreiddir ein gwaith, yn cynnwys : Dylunio a Mynediad Aberconwy, Atal y Fro, Cymorth i Ferched Bangor a'r Cylch, Cymorth i Ferched Cymdeithasau Tai Clwyd Alyn (CAHA), *Stepping Stones*, *Safer Merthyr Tydfil*, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Caerfyrddin, *Calan DVS*, Cymorth i Fenywod Caerdydd, Cymorth i Fenywod Cyfannol, Uned Diogelu Trais Teuluol (DASU), Gorwel (Grŵp Cynefin), *Montgomeryshire Family Crisis Centre*, Cymorth i Fenywod Casnewydd, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gogledd Sir Ddinbych, Cymorth i Ferched Port Talbot ac Afan, Cymorth i Fenywod Rhondda Cynon Taf, Cymru Ddiogelach (gan gynnwys prosiect *Dyn*), Cymorth i Fenywod Abertawe, *Threshold*, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru a Chanolfan Trais a Cham-drin Rhywiol (RASASC) Gogledd Cymru.

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE

Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |

Email: info@welshwomensaid.org.uk | Web: www.welshwomensaid.org.uk

Registered Charity Number: 1140962

[https://welshwomensaid-](https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA)

[my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA](https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA)

Translation 79 response to UK Gov firearms consultation - FINAL (1).docx



yn ogystal â gwaith ataliol mewn ymateb i drais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Fel corff ymbarél, ein prif bwrpas yw atal cam-drin domestig, trais rhywiol a phob math o drais yn erbyn menywod a sicrhau gwasanaethau o ansawdd uchel i oroeswyr, a'r rheini'n wasanaethau sy'n ymateb i anghenion, sy'n dangos cydraddoldeb rhywiol ac sy'n holisitig. Cydweithiwn yn genedlaethol i integreiddio a gwella ymatebion ac arferion cymunedol yng Nghymru; darparwn gyngor, gwasanaethau ymgynghori, cefnogaeth a hyfforddiant i gyflenwi gwelliannau polisi a gwasanaeth ar draws gwasanaethau'r llywodraeth, gwasanaethau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector ac o fewn cymunedau, a hynny er budd goroeswyr.

Rydym ni hefyd yn darparu gwasanaethau uniongyrchol gan gynnwys, er enghraifft, Llinell Gymorth Byw Heb Ofn a ariennir gan Lywodraeth Cymru, a phartneriaeth Gwasanaeth Hyfforddi Cenedlaethol. Rydym yn treillau prosiect 'Gwasanaethau Grymuso ac Addysgu Goroeswyr' (SEEdS), sy'n grymuso goroeswyr trais a cham-drin i ddod at ei gilydd i ysbrydoli ac i ddylanwadu ar welliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus a fframweithiau comisiynu, ac i fod yn gymorth i newid agweddau.

Rydym ni hefyd yn cyflewni Safonau Ansawdd Cenedlaethol Cymru, fframwaith achredu cenedlaethol i wasanaethau cam-drin domestig arbenigol yng Nghymru (a gefnogir gan Lywodraeth Cymru) fel rhan o gyfres o systemau a fframweithiau achredu integredig yn y DU. (Ceir mwy o wybodaeth ynghylch y Safonau Ansawdd Cenedlaethol yma : <http://www.welshwomensaid.org.uk/what-we-do/our-members/standards/>)

Ymateb Cymorth i Ferched Cymru i ymgynghoriad Llywodraeth y DU: Canllawiau statudol i'r heddlu ynghylch trwyddedu arfau tanio

Argymhellion:

- Dylai hanes o gam-drin domestig olygu gwaharddiad awtomatig ar berchen ar arf tanio
- Ni ddylid cyfweld partneriaid ymgeiswyr ynghylch addasrwydd ar gyfer perchen ar wn, fodd bynnag, pe bai hyn yn mynd yn ei flaen, dylai swyddogion gael eu hyfforddi i adnabod a deall rheolaeth gymhellol
- Mae'n rhaid rhoi'r flaenoriaeth uchaf i ganfyddiad goroeswr ei hun o risg
- Dylai'r gwaith o gasglu tystiolaeth ar addasrwydd ymgeisydd ymwneud ag ystod o asiantaethau er mwyn creu darlun clur o unrhyw hanes o ymddygiad domestig camdriniol

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE

Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |

Email: info@welshwomensaid.org.uk | Web: www.welshwomensaid.org.uk

Registered Charity Number: 1140962

[https://welshwomensaid-](https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA)

[my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA](https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA)

Translation 79 response to UK Gov firearms consultation - FINAL (1).docx



Mae Cymorth i Ferched Cymru wedi drafftio'r datganiad isod mewn ymateb i'r 'Canllawiau statudol i'r heddlu ynghylch trwyddedu arfau tanio' gan Lywodraeth Cymru. Yn hytrach nag ateb y cwestiynau unigol, rydym wedi canolbwyntio'n benodol ar y pwyntiau sy'n ymwneud ag ymgeiswyr am drwydded arf tanio sydd â hanes o gam-drin domestig.

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn croesawu ymdrechion Llywodraeth y DU i gryfhau'r canllawiau statudol ar gyfer prif swyddogion yr Heddlu, yn arbennig y gydnabyddiaeth o'r peryglon a berir gan ddrwgweithredwyr cam-drin domestig sy'n cael trwydded arfau tanio. Er ein bod yn gwerthfawrogi bod yna rai achosion cyfiawn dros berchen ar wn, pryderwn yn fawr fod unrhyw un sydd â hanes o gam-drin domestig, gan gynnwys rheolaeth gymhellol, neu fathau eraill o drais, yn peri gormod o risg i gael trwydded. Pryderwn am eiriad y canllawiau sy'n nodi; *'tystiolaeth o drais neu gam-drin domestig yw un o'r ffactorau mwyaf difrifol y dylid ei ystyried wrth asesu cais'*. Rydym yn glir y dylai unrhyw hanes hysbys o ymddygiad treisgar neu gamdriniol, gan gynnwys rheolaeth gymhellol nad yw'n gorfforol, yng nghyd-destun cam-drin domestig, olygu gwaharddiad awtomatig ar berchen ar arf tanio. Mae'r drwgweithredwr eisoes wedi dangos ei fod/bod yn peri risg ac mae caniatáu iddo/iddi gael gafael ar arf tanio yn golygu rhoi arf iddo/iddi y gellir ei ddefnyddio i ddychryn yn ogystal â niweidio rhywun. Dengys tystiolaeth o'r Unol Daleithiau fod cysylltiad agos rhwng cam-drin domestig a thrais sy'n ymwneud â gynnu a bod canlyniadau distrywiol yn deillio o ynnau mewn sefyllfaoedd lle ceir cam-drin domestig².

Cawsom ein dychryn o ddarllen y bydd disgwyl i oroeswyr gael eu cyfweld ynghylch addasrwydd drwgweithredwr i gael trwydded. Er bod y cod yn cydnabod na ddylai hyn ddigwydd o flaen yr ymgeisydd (y drwgweithredwr) ac er ei fod yn glir y dylai swyddogion gael hyfforddiant digonol ar arwyddion cam-drin domestig, nid yw'n cydnabod y gall y goroeswr fod yn amharod i siarad neu y gallai fod mewn perygl o ddialedd. Dengys yr awgrym hwn ddiffyg dealltwriaeth o reolaeth gymhellol a'r cyfyngiadau y gallai hyn eu gosod ar oroeswr i allu siarad yn rhydd â'r cyfwelydd. Nid yw ychwaith yn mynd i'r afael â'r broblem y gall goroeswyr leihau eu profiadau eu hunain, a hynny fel dull o ymdopi, yn arbennig o flaen cyrff statudol oherwydd bod arnynt ofn y drwgweithredwr, neu ofn cael y drwgweithredwr i drwbl, neu ofn cael unrhyw blant wedi'u cymryd oddi arno/arni. Ac er ei fod yn cydnabod y gallai'r risg gynyddu os gwrthodir trwydded i'r drwgweithredwr, rydym yn glir na ddylai hyn fod yn rheswm dros roi trwydded ac nid oes manylion ynghylch pa gamau y byddai disgwyl i'r heddlu eu cymryd i amddiffyn rhywun neu sicrhau bod yna ddulliau atgyfeirio effeithiol i gymorth arbenigol. Pryderwn fod y risgiau yn rhy fawr ac ailadroddwn eto y dylai hanes o gam-drin domestig olygu gwaharddiad awtomatig.

Mae'n rhaid gweithredu ar unwaith ar sail pryder goroeswr ynghylch ei diogelwch/ddiogelwch (a diogelwch unrhyw blant) ac ni ddylai unrhyw weithiwr proffesiynol fyth israddio'r risg. Mae goroeswyr yn adnabod y berthynas yn well nag unrhyw un ac mae'n rhaid rhoi'r pwys mwyaf i'w teimladau greddfol o fod mewn perygl. Nodwn fod y canllawiau'n egluro y dylid ystyried cais gan bartner neu

² <https://everytownresearch.org/reports/guns-violence-women-americas-uniquely-lethal-domestic-violence-problem/>



aelod o'r teulu i ymgeisydd beidio â meddu ar drwydded. Ni ddylai hyn gael 'ei ystyried' yn unig ond dylid gweithredu arno ar unwaith. Mae'n rhaid rhoi'r flaenoriaeth uchaf i ganfyddiad y goroeswr ei hun o risg ac os yw'n pryderu, ni ddylid ei israddio na'i wrthod. Dyfynnwn yma enghraifft Christine a Lucy Lee³ a gafodd eu saethu a'u lladd gan eu drwgweithredwr wedi i ynau gael eu dychwelyd iddo, er bod aelod o'r teulu wedi adrodd i'r heddlu iddo fygwth eu lladd.

O ran gwiriadau cefndirol, pryderwn na fydd tystiolaeth o gam-drin gan ddrwgweithredwyr risg 'ganolig' yn cael ei chofnodi. Ni fydd gwiriadau trwy'r Ganolfan Diogelu Amlasiantaeth (MASH) neu'r Cynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC) yn dal y rheini y tu allan i'r 10% uchaf o ddrwgweithredwyr sy'n peri'r risg fwyaf. Mae risg yn ddynamig a gall amrywio'n gyflym. Gall y diffyg cydnabyddiaeth o reoli ymddygiad mewn modd cymhellol hefyd arwain at gyfyngiad ar adnabod y risg. Hyd yn oed heb drais corfforol, mae Adolygiadau Dynladdiadau Domestig wedi dangos bod rheolaeth gymhellol yn ffactor risg sylweddol ar gyfer dynladdiad. Golyga'r ffactorau hyn y gellir rhoi trwydded o hyd i ddrwgweithredwyr nad ydynt, hyd yn hyn, wedi'u hadnabod fel rhai sy'n cyrraedd y trothwyon cyfyngedig.

At hyn, nid yw llawer o fenywod yn teimlo eu bod yn medru adrodd i'r heddlu. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i fenywod sy'n profi gwahaniaethu lluosog; menywod sydd wedi bod mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol, sydd ag anghenion camddefnyddio sylweddau neu iechyd meddwl neu sydd â statws mewnffudo ansicr. Drwy seilio gwiriadau cefndirol ar atgyfeiriadau'r Ganolfan Diogelu Amlasiantaeth neu'r Cynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg, cyfyngir ar y nifer o fenywod, yn enwedig y rheini sydd ag amgylchiadau arbennig ychwanegol, sy'n cael eu diogelu trwy drwyddedu arfau tanio.

Mae nifer yr achosion o gam-drin domestig sy'n dod i sylw'r heddlu yn fach o'i gymharu â'r holl achosion a nodwyd. Mae angen mwy o ymchwilio gyda gwasanaethau cyhoeddus a statudol eraill i greu darlun amlasiantaeth y tu allan i gofnodion yr heddlu er mwyn penderfynu a oes gan rywun hanes o ymddygiad domestig camdriniol. Cefnogwn yr awgrym gan y Swyddfa Gartref na ddylid rhoi trwydded heb dystysgrif feddygol gan feddyg teulu. Wrth gasglu'r dystiolaeth hon, rydym yn annog y dylid holi cwestiynau ynghylch a yw'r ymgeisydd erioed wedi mynegi dicter neu deimladau niweidiol tuag at bartner, aelod o'r teulu neu berson arall yn ogystal â gwybodaeth am anghenion iechyd meddwl.

O dan y 'ffactorau mwyaf difrifol' rhestrir cam-drin domestig fel ymddygiad a fyddai '*fel arfer yn golygu bod dystysgrif yn cael ei gwrthod neu ei dirymu oni ellir dangos amgylchiadau eithriadol*'. Mae'r rhain, fel y noda'r ymgynghoriad, yn dystiolaeth bod rhywun wedi cymryd camau cadarnhaol tuag at adsefydlu neu gyfnodau hir o ymddygiad sy'n ufudd i'r gyfraith. Byddem yn annog pwyll yma gan fod dystiolaeth o brosiect hirdymor Mirabal⁴ wedi canfod bod rhaglenni ar gyfer drwgweithredwyr er enghraifft i'w gweld yn dangos, er bod trais corfforol a rhywiol yn gostwng ar ôl y rhaglen, nad yw mathau eraill o reolaeth gymhellol yn gostwng ar yr un lefelau. Felly, gallai arf tanio gael ei ddefnyddio

³ <https://www.refuge.org.uk/surrey-police-firearms-licencing-officer-sacked-for-failings-in-case-concerning-shooting-of-christine-and-lucy-lee/>

⁴ <https://www.dur.ac.uk/resources/criva/ProjectMirabalfinalreport.pdf> tudalen 18

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE

Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |

Email: info@welshwomensaid.org.uk | Web: www.welshwomensaid.org.uk

Registered Charity Number: 1140962

[https://welshwomensaid-](https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA)

[my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA](https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA)

Translation 79 response to UK Gov firearms consultation - FINAL (1).docx



o hyd fel ffordd o reoli neu ymddwyn yn fygythiol ac fel y soniwyd eisoes, gall risg amrywio; megis partner yn ceisio ymadael, beichiogrwydd neu newidiadau eraill i ddynmeg perthynas a all arwain at waethygu'r perygl ac at gam-drin domestig a allai fod yn angheuol.

Diolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynhoriad hwn. Byddai Cymorth i Ferched Cymru yn hapus i ddarparu gwybodaeth a thystiolaeth bellach am y pwnc hwn, neu faterion cysylltiedig, ar gais.

Gellir cyfeirio unrhyw sylwadau neu gwestiynau ynghylch ein hymateb at:

Elinor Crouch-Puzey

Swyddog Polisi ac Ymchwil

EliCrouch-Puzey@welshwomensaid.org.uk

02920541551

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE

Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |

Email: info@welshwomensaid.org.uk | Web: www.welshwomensaid.org.uk

Registered Charity Number: 1140962

<https://welshwomensaid->

my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA

Translation 79 response to UK Gov firearms consultation - FINAL (1).docx